

amserbeibl

Astudiaethau Beiblaidd – Safon 4

Cofiwch roi eich enw a'ch cyfeiriad yma.

Oedran _____ Dyddiad geni _____

Enw _____

Cyfeiriad _____

Enw Arweinydd y Dosbarth _____

Astudiaethau Beiblaidd o'r Efengylau

Cofiwch mai un llythren yw ch, dd, ff, ng, ll, ph, rh, th



Astudiaeth I Yr Arglwydd Iesu yn Marw



DARLLENWCH
Luc 23: 32-56



Awgrymiadau am Adnodau Eraill i'w Darllen

Salm 22 Eseia 53 Ioan 19: 16-42

Roedd Iesu tua 33 oed pan fuodd farw. Roedd hyn tua thair blynedd ar ôl iddo ddewis ei 12 disgybl a dechrau ar ei weinidogaeth gyhoeddus. Roedd yn mynd o le i le i ddysgu, gwella pobl sâl a gwneud gwyrtiau eraill. Yn ystod yr amser hwnnw, gwnaeth lawer o ffrindiau ac roedd ganddo lawer o ddilynwyr ond roedd ganddo lawer o elynion hefyd a oedd yn genfigennus ohono ac yn ceisio dylanwadu ar y bobl.

C Sonnir am rai o'i elynion yn adnod 35.

Pwy oedden nhw? Beth ddywedon nhw? Sut wnaethon nhw ei ddweud?

4

Roedd y rheolwyr (arweinwyr yr Iddewon) yn poeni fod Iesu'n tansailio eu hawdurdod a'u dylanwad ar y bobl. Roedden nhw'n mwynhau bod mewn grym a doedden nhw ddim eisiau colli eu hawdurdod. Doedden nhw ddim yn poeni pwy oedd Iesu na beth fyddai'n digwydd iddo – dim ond iddo adael llonydd iddyn nhw. Mae llawer ohonon ni yn teimlo felly heddiw.

C Yn adnod 36, daeth rhagor o elynion Iesu ato ar y groes.

Pwy oedden nhw? Beth ddywedon nhw? Sut wnaethon nhw ei ddweud?

4

Rhufeiniaid oedd y milwyr, nid Iddewon. Doedden nhw ddim yn grefyddol fel arweinwyr yr Iddewon. Yn wir, roedden nhw'n enwog am fod yn greulon ac yn gas. Mae'n siwr eu bod nhw'n meddwl y bydden nhw'n plesio'r arweinwyr Iddewig wrth drin Iesu fel hyn. Mae llawer o bobl yn dal i wneud pethau i blesio pobl eraill, hyd yn oed os ydyn nhw'n gwybod bod hynny'n anghywir.

Yn syth ar ôl i Iesu farw, roedd gan un o'r milwyr (canwriad a oedd yn gofalu am gant o ddynion) rywbeth gwahanol iawn i'w ddweud.

C Beth ddywedodd e a sut wnaeth e'i ddweud?

2

C Yn adnod 39, down ar draws un arall o elynion Iesu. Pwy oedd e a beth wnaeth e i Iesu?

2

Fodd bynnag, roedd gan y troseddwr arall agwedd hollol wahanol. Roedd e'n gwybod ei fod yn haeddu cael ei gosbi oherwydd iddo fyw bywyd drwg.

C Beth ddywedodd e am Iesu?

1

C Beth ddywedodd e wrth Iesu?

1

C Sut wnaeth Iesu ymateb i gais y lleidr oedd ar fin marw?

2


Roedd y troseddwr hwn yn cyfaddef ei fod yn bechadur a'i fod yn haeddu marw. Roedd yn cydnabod bod Iesu'n ddibechod ac y byddai'n teyrnasu fel Brenin yn y bywyd nesaf. Gofynnodd i'r Arglwydd Iesu ei gofio ac addawodd Iesu y byddent gyda'i gilydd ym mharadwys.

Ydych chi eisiau bod gyda'r Arglwydd Iesu ym mharadwys (y Nefoedd) un diwrnod? Os felly, mae angen i chi wneud fel y lleidr:

1. Cyfaddef eich bod yn bechadur ac yn haeddu cosb gan Dduw.
2. Credu bod yr Arglwydd Iesu'n ddibechod a'i fod wedi cael ei gosbi yn eich lle.

Roedd llawer o ffrindiau a dilynwyr Iesu'n edrych ar bopeth oedd yn digwydd. Roedd nifer o wragedd (adnod 49) wedi'i ddilyn o Galilea ac wedi'i helpu.

C Gwelwn enwau rhai o'r rhain yn Marc 15: 40. Mae enwau dwy ohonynt yn ffitio i 1. a 2. yn y Croesair. 3. yw enw'r dyn a ofynnodd i Peilat am gorff Iesu. a 4. yw enw'r dyn a aeth gyda 3, sonnir amdano ef yn Ioan 19: 39.



4

Darllenwch yr Adnodau Allweddol yn ofalus a gofyn y cwestiwn hwn i chi'ch hunan:
"Ai ffrind ynteu elyn i'r Arglwydd Iesu ydw i?"



DARLLENWCH
Luc 8: 1-3
Ioan 20: 1-18



ADNOD
ALLWEDDOL
Rhufeiniaid 10: 9

Astudiaeth 2 Yr Arglwydd Iesu yn Atgyfodi



Awgrymiadau am Adnodau Eraill i'w Darllen

Marc 16: 9-11

I Corintiaid 15: 1-50

Roedd wedi bod yn gyfnod eithriadol o anodd i Fair Magdalen. Hwn oedd y trydydd diwrnod ar ôl i Iesu farw. Roedd hi wedi caru Iesu, ei ddilyn a'i wasanaethu ers iddo'i gwella hi a maddau iddi beth amser yn ôl.



C Edrychwch ar Luc 8: 1-3. Beth oedd yr Arglwydd Iesu wedi'i wneud i Fair Magdalen?

1


C Beth wnaeth Mair a'r gwraeged eraill i'r Arglwydd Iesu pan oedd e byw?

1

C Enwch y ddwy wraig arall a enwir yn y Darlleniad cyntaf o'r Beibl.

2

Mair Magdalen oedd y person cyntaf i'r Arglwydd Iesu ymddangos iddi ar ôl atgyfodi. Nid i'w ddisgyblion, na'i deulu, nac i rhywun pwysig yng ngolwg eraill yr ymddangosodd gyntaf. Pam gafodd Mair y fraint fawr hon? Dewch i ddarllen Ioan 20: 1-18 i weld beth y gallwn ei ddysgu.



C Sylwodd Mair fod rhywbeth wedi'i symud o geg y bedd. Beth?

1

Roedd hi'n gwybod bod hwn yn rhy drwm i'w symud yn hawdd. Ar ben hynny, roedd Peilat wedi gorchymyn bod y bedd i fod i gael ei selio a'i warchod. Roedd Mair wedi'i synnu'n fawr a rheddodd i ddweud wrth rywun. Daeth o hyd i ddau o ddisgyblion Iesu. Caiff un ohonyn nhw ei enwi.

C Pwy oedd hwnnw?

1



C Darllenwch adnodau 6 a 7, ac ysgrifennu YN EICH GEIRIAU EICH HUNAN beth welodd Pedr yn y bedd.

3

Yna, aeth y disgybl arall i mewn.


C Beth oedd ei ymateb EF i'r hyn a welodd?

2

C Beth wnaeth y ddau ddisgybl pan ddaethon nhw allan o'r bedd?

1

Ar ôl iddynt fynd, arhosodd Mair y tu allan i'r bedd yn crïo. Roedd hi'n caru'r Arglwydd Iesu. Doedd hi ddim wedi sylweddoli ei fod wedi atgyfodi. Roedd hi'n meddwl bod rhywun wedi dwyn ei gorff. Mae'n siwr ei bod wedi dychryn pan blygodd ac edrych i mewn i'r bedd.



C Pwy welodd hi yn y bedd?

1

Hyd yn oed pan ymddangosodd yr Arglwydd Iesu iddi, wnaeth hi ddim o'i adnabod i ddechrau.

C Pwy oedd hi'n meddwl oedd e?

1

Ond pan ddywedodd Iesu ei henw, fe drodd hi tuag ato.

C Beth wnaeth hi ei alw?

1

Yna, gofynnodd yr Arglwydd Iesu i Mair fynd â neges at ei ddisgyblion.

C Beth oedd y neges?

2

Aeth Mair yn syth a gwneud yn union fel y dywedodd wrthi. Mae'r Arglwydd Iesu eisiau i ni ddweud wrth ein ffrindiau a'n perthnasau ei fod wedi marw i achub pawb sy'n credu ynddo a'i fod yn fyw yn awr am byth. Ond roedd neges Mair hyd yn oed yn fwy personol. Dechreuodd hi trwy ddweud wrth y disgyblion ei bod wedi gweld yr Arglwydd. Roedd hi wedi'i weld drosti ei hunan!

C Ysgrifennwch yr Adnod Allweddol a thanlinellu beth y mae'r adnod yn ei ddweud y mae'n rhaid i ni ei gredu er mwyn cael ein hachub.

3

Yn yr astudiaeth hon, rydym wedi gweld ymateb Pedr, Ioan a Mair i'r atgyfodiad.

C Beth yw'ch ymateb chi?



DARLLENWCH
Luc 24: 45-53
Actau 1: 1-12



**ADNOD
ALLWEDDOL**
Luc 24: 51

Astudiaeth 3 Yr Arglwydd Iesu yn Esgyn i'r Nefoedd

Awgrymiadau am Adnodau Eraill i'w Darllen

Marc 16: 19 a 20 Ioan 7: 39 Actau 4: 31-33

Roedd yr Arglwydd Iesu wedi cael ei groeshoelio ac wedi'i atgyfodi. Roedd wedi ymddangos i'w ddisgyblion sawl gwaith ac yn awr roedd diwedd ei gyfnod ar y ddaear wedi dod.

CROESAIR

C Darllenwch y ddau ddarn o'r Beibl lle mae Luc yn dweud beth ddigwyddodd nesaf ac yna gwnewch y croesair.

Cliwiau i lawr

- Wrth i Iesu esgyn i'r Nefoedd, roedd hwn yn ei guddio o olwg y disgyblion.
- Nifer y diwrnodau rhwng atgyfodiad Iesu a'i esgyniad.
- Daeth y disgyblion yn ôl o Fynydd yr Olewydd i'r ddinas hon.
- Dyma oedd lliw dillad y ddau ddyn.
- Roedd Ioan yn defnyddio hwn i fedyddio pobl.

Cliwiau ar draws

- Ysgrifennwyd llyfr Actau'r Apostolion ar gyfer y dyn hwn.
- Dywedodd Iesu y byddai'r disgyblion yn cael eu bedyddio â hwn cyn hir.
- Un o'r llefydd y dywedodd Iesu y byddai'r disgyblion yn dystion iddo.

C Rhowch y llythrennau sydd yn y sgwariau sydd â llinell ar eu traws yn y drefn gywir i ffurfio gair sydd yn y darlenniad o'r Beibl.

--	--	--	--


C Darllenwch Actau 1: 8 ac ysgrifennu enwau'r llefydd yn y bylchau cywir:-

Byddent yn dystion yn y brifddinas sef _____, ac yn yr ardal o'i

chwmpas sef _____. Yna, roedden nhw i fod i fynd i ardal

o'r enw _____, a oedd yn bellach i'r gogledd.

Roedd Iesu'n gwybod bod ei waith ar y ddaear wedi'i orffen. Yn awr, y disgyblion fyddai'n gyfrifol am ledaenu Gair Duw. Roedd hyn yn dasg enfawr. Roedd Iesu'n eu galw yn 'dystion' iddo. (Gweler adnod 8) Weithiau mae pobl yn dystion i ddamweiniau ac maen nhw'n gorfod mynd i'r llys i esbonio beth y maen nhw wedi'i weld a'i glywed. Mae'r disgyblion yn dystion i'r hyn y maen nhw wedi'i weld a'i glywed!



8

I

3

C Edrychwch ar Luc 24: 46 a 48 ac ysgrifennwch y pethau y dywedodd Iesu fod ei ddisgyblion wedi'i gweld a'u clywed.


2

C Darllenwch Marc 16: 19, Actau 1: 11 a 12 a llenwi'r geiriau coll yn y paragraff isod:-

Roedd Iesu wedi mynd â'i ddisgyblion i Fynydd yr _____ ger Bethania. Bendithiodd nhw a cymerwyd ef i fyny i'r _____, lle'r eisteddodd ar ddeheuulaw _____.

3

Roedd hyn yn golygu bod Iesu yn ôl gyda'i Dad, a dyna'r man lle mae ef heddiw. Gallech feddwl y byddai ei ddisgyblion yn drist iawn. Roedd eu Ffrind, eu Hathro a'u Harglwydd wedi'u gadael.



C Sut roedden nhw'n teimlo wrth iddyn nhw fynd yn ôl i Jerusalem?

--

I

C Beth wnaethon nhw?

--

I

Yn yr Astudiaeth hon, addawodd Iesu roi nerth i'w ddisgyblion. Fe gyflawnwyd yr addewid pan ddaeth yr Ysbryd Glân arnynt ymhen ychydig ddyddiau ar ôl i Iesu fynd yn ôl i'r Nefoedd. Heddiw, mae pawb sy'n credu yn yr Arglwydd Iesu yn cael yr Ysbryd Glân sy'n rhoi nerth iddynt fod yn dystion iddo.

C Darllenwch Actau 4: 31 a'i ysgrifennu yma i brofi'r ffaith hon.

I

Dyma weddi am yr Ysbryd Glân.

POWER to change a sinner like me.

O Dduw, rho im dy Ysbryd,
dy Ysbryd ddaw â gwres,
dy Ysbryd ddaw â'm henaid
i'r nefoedd wen yn nes;
dy Ysbryd sy'n goleuo,
dy Ysbryd sy'n bywhau,
dy Ysbryd sydd yn puro,
sancteiddio a dyfrhau.

Dafydd William



DARLENWCH

Ioan 14: 1-3

I Corintiaid 15: 51-54

I Thesalonïaidd 4: 13-18

ADNOD
ALLWEDDOL

Hebreaidd 10: 37

Astudiaeth 4 Yr Arglwydd Iesu yn Dod Eto



Awgrymiadau am Adnodau Eraill i'w Darllen

Philipiäid 3: 20 a 21 Titus 2: 11-14 2 Pedr 3: 1-10 I Ioan 2: 28 I Ioan 3: 3

Cawsom addewidion mawr ar ddiwedd yr astudiaeth ddiweddar.

C Darllenwch Actau 1: 11 ac ysgrifennu'r addewid a gafodd y disgyblion.

2

C Nawr trowch i'r Darlleniad cyntaf o'r Beibl ac ysgrifennu'r PEDWAR GAIR sy'n rhoi'r un addewid.

I

Dyma addewid i bawb sy'n ymddiried yn Iesu ac sy'n rhan o deulu Duw. Yn I Thesalonïaidd 4: 13 gwelwn nad oes angen i Gristnogion fod yn drist pan fydd Cristion arall yn marw.

C Darllenwch yr adnod hon ac ysgrifennwch enw un peth nad yw gan bobl nad ydynt yn Gristnogion.

I

Nid oes eisiau i Gristnogion fod yn drist. Eu gobaith nhw yw'r sicrwydd y bydd Iesu'n dod yn ôl. Bydd cyrff Cristnogion sydd wedi marw yn cael eu codi a bydd y bobl sy'n dal yn fyw yn cael eu newid. Bydd y ddau fath o bobl yn cael eu cymryd o'r byd i'r Nef.

C Defnyddiwch y Darlleniadau o'r Beibl, I Corintiaid 15: 51-54 ac I Thesalonïaidd 4: 13-18, i wneud y Croesair isod sy'n trafod beth fydd yn digwydd pan ddaw Iesu yn ôl eto.

CROESAIR


Cliwiau i lawr

1. Bydd y Cristnogion yn cael eu cipio i fyny yn y _____.
3. Dywedir am Gristnogion, "Yr ydym i gyd i gael ein _____".
5. Daw'r Arglwydd i lawr o'r _____.
6. Pwy fydd yn atgyfodi yn gyntaf? Y _____ yng Nghrist.

Cliwiau ar draws

2. Bydd Cristnogion yn cwrdd â'r Arglwydd yma.
4. "Mewn _____" - pa mor sydyn fydd y newid.
7. Bydd hyn yn digwydd ar ganiad yr utgorn _____ . (I Corintiaid 15: 51)
8. Bydd yr archangel yn _____.

Nid yw pobl nac angylion yn gwybod pryd y bydd hyn yn digwydd. Dim ond Duw sy'n gwybod. Pan ddaw, bydd yn sydyn ac yn annisgwyl, ac ni fydd amser na chyfle i neb gael eu hachub bryd hynny!



8

C Darllenwch Ioan 14: 1-3 ac ysgrifennu yn eich **GEIRIAU EICH HUNAN** pam y bydd yn dod yn ôl.

2

Heddiw, mae llawer o bobl yn meddwl efallai nad yw hyn yn wir. Dyna sut yr oedd hi yn nyddiau'r apostolion hefyd.

C Darllenwch 2 Pedr 3: 3 a 4, anc ysgrifennu beth ddywedodd Pedr y bydd y gwatwarwyr (y bobl sy'n sbeitio) yn ei ddweud yn y dyddiau diwethaf.

1

C Nawr darllenwch 2 Pedr 3: 9. Yma, dysgw'n nad yw Duw yn araf i wneud yr hyn y mae wedi'i addo. Ysgrifennwch **YN EICH GEIRIAU EICH HUNAN** pam nad yw'r Arglwydd Iesu wedi dod yn ôl eto.

2

C Ysgrifennwch yr Adnod Allweddol.

1

Mae hyn yn gwneud i ni feddwl. Efallai bod Duw yn aros i chi edifarhau a chredu (dod yn Gristion), cyn i'w Fab ddod yn ôl! Beth pe bai'r Arglwydd Iesu yn dod yn ôl heddiw? A fydddech chi'n cael eich newid a'ch cipio i fyny i fod gydag ef am byth, neu a fydddech yn cael eich gadael ar ôl? I Gristnogion, dylai'r 'gobaith' hwn olygu ein bod yn disgwyl ei weld yn dod. (Gweler Titus 2: 13)

C Ysgrifennwch 1 Ioan 2: 28 ac 1 Ioan 3: 3 a meddwl yn ofalus amdanynt.

2

Os ydych yn Gristion, dylech fod yn ofalus i ble rydych yn mynd a beth rydych yn ei wneud. Dylai'r ffaith ei fod yn dod yn ôl wneud i chi fyw bywyd pur a sanctaidd, fel Iesu, bob dydd.

Darllenwch yr Adnod Allweddol eto a chofiwch y gallai ddigwydd heddiw!

cyfanswm

Marciau
(i'w nodi gan yr arweinydd)

Cyfanswm

Cyfanswm Llawn

Cyhoeddwyd yn wreiddiol yn Saesneg gan: © Bible Educational Services, P.O. Box 42, Penarth, CF64 3YD.
Y gwersi ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim ar www.biblelinkit.com neu ffoniwch 01202 873500 am fwy o wybodaeth. Rhif elusen 1096157

Cyhoeddir y gwersi Cymraeg gan © 2008 Pwyllgor Amserbeibl Cymru.
Addasiadau Cymraeg gan Siân Roberts a Linda Lockley. Golygwyd gan Siân Roberts. Cysodwyd gan Ynyr Roberts.
Cyfres lawn o wersi dros dair blynedd i rai 4-15 oed ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim o www.amserbeibl.org
Am fanylion pellach neu i gyfrannu at y gwaith (rhoddion yn daladwy i 'Amserbeibl') cysylltwch ag:
Aled Davies, Cyngor Ysgolion Sul, Ael y Bryn, Chwilog, Pwllheli, Gwynedd LL53 6SH ☎ 01766 819120